

HELP GYDA CHYMHORTHION CLYW

Batris

- **Newidiwch y batris tua unwaith yr wythnos.** Bydd y defnyddiwr yn clywed eu cymorth clyw digidol yn bipian pan mae'r batri yn isel.
- **Ydy'r batri y ffordd gywir?** Tynnwch y sticer; gwnewch siwr bod y '+' ar y batri yn cyfateb i'r '+' ar y blwch batri.
- **Mae batris cymhorthion clyw NHS am ddim** – gofynnwch yn y ganolfan iechyd neu'r adran awdioleg.
- **Mae gwahanol fathau o fatris** – gwnewch yn siwr mai rhai cywir sydd gyda chi.
- **Diffoddwch y cymorth clyw yn y nos** – mae'r batris yn para'n hirach.

Rheoli

- **On/off** – gallwch chi ddiffodd a chynnuau y cymhorthydd clyw drwy agor a chau y blwch batri.
- **Volume** – mae gan rai cymorthion clyw olwyn rheoli, sydd ambell dro wedi'i rifo (fel arfer i fyny yn uwch ac i lawr yn dawelach).
- **Rhaglenni** - efallai bydd botwm neu switsh i newid rhaglenni ar gyfer amgylchedd gwahanol (llefydd swllyd neu i weithio gyda dolen).
- **Gosodiad Dolen** – i'w ddefnyddio gyda systemau dolen - yn aml mewn banciau, swyddfeydd post a theatrau. Gallwch osod dolen ar gyfer teledu hefyd.

Mae rheoli cymhorthion clyw yn amrywio - edrychwch ar y cyfarwyddiadau neu gofynnwch i'r darparwr os ydych yn ansicr.

Problemau Cyffredin

Cymorth clyw ddim yn gweithio? Gwiriwch bod:

- y cymorth clyw ymlaen.
- y cymorth clyw ar y brif raglen drwy ddiffodd a chynnuau eto.
- lefel y sain wedi codi.
- nad yw'r tiwbiau wedi eu gwasgu, eu hollti neu eu blocio gyda cwyr clust.
- bod y tiwbiau yn glir o ddiferion dwr. Os na, tynnwch y tiwb yn ofalus o'r darn bachog ac ysgwyd i gael gwared o'r diferion.

Cymhorthion clyw yn chwibanu?

- Gofalwch bod y mowld yn iawn yn y glust (gweler y dde).
- Trowch lefel y sain i lawr ychydig.
- Gofalwch nad yw'r cymorth clyw ar osodiad dolen.
- Gall cwyr yn blocio'r glust achosi chwibanu
 - gall meddyg teulu gael golwg.

